## Gweddi ar Arglwydd yr Atgyfodiad

Arglwydd Iesu Grist, cyfarchwn Di. Nid yw'r Groes wedi cael y llaw drechaf arnat, ac nid yw'r bedd wedi dy gadw yn ddistaw. Ar ddydd cyntaf yr wythnos, cyn i'r haul godi a phan oedd gwlith y bore ar ddail y coed, fe gefaist gyfle i gyfarfod â'n chwaer, Mair; a gelwaist hi a'i chyfarch yn annwyl wrth ei henw.

Nyni yw dy deulu a'th ffrindiau, ac er ein bod yn gwbl ddolurus dy fod wedi dioddef gwaradwydd y Groes ac yn sylweddoli nad yw ein dwylo ni chwaith yn lân rhag y weithred ysgeler hon, fe ddeuwn mewn ofn, ac eto yn falch y medrwn gadarnhau'r si sydd ar led dy fod ti'n fyw byth bythoedd.

'Gyda sanctaidd wawr y bore
teithiai'r gwragedd at y bedd,
clywid ing yn sŵn eu camre,
gwelid tristwch yn eu gwedd;
cododd Iesu!
Ocheneidiau droes yn gân.'

Tyrd i'n cyfarfod fel y cofleidiaist Mair yn yr ardd gyda thynerwch a phenderfyniad.

'Bydd gyda ni, O Iesu da,
sancteiddia ein cymdeithas;
glanha'n meddyliau, pura'n moes
er mwyn dy groes a'th deyrnas.'

Sibrwd ein henwau bob yr un fel etifeddion dy wirionedd a'th Deyrnas, a rho i ni ddyfalbarhad a thystiolaeth yn ein geiriau a'n cerddediad.

'Gwna ni yn dystion tra bôm byw
dros gariad Duw at ddynion,
eneinia ni â'th ras o hyd,
rho d'Ysbryd yn ein calon.'

Dyna'n gweddi, O Arglwydd yr Atgyfodiad; llanw'n gwefusau â chân y waredigaeth a gorfoledd y Ffydd, fel y medrwn gwmpasu'r byd cyfan. Yn wir:

'Dysg inni gofio pobloedd byd
gan fyw o hyd i'w caru
nes delo'n daear yn y man
yn gyfan i'th foliannu.'

Yn dy Enw. Amen.